



## **Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-16-12 : 2 Gorffennaf 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

### **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

**CLA159 - Rheoliadau Dileu Atebolrwydd dros Fenthyciadau i Fyfirwyr at Gostau Byw (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'u gwnaed ar: 12 Mehefin 2012.**

**Fe'u gosodwyd ar: 15 Mehefin 2012.**

**Yn dod i rym ar: 1 Awst 2012**

**CLA160 - Gorchymyn Dynodi Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'i gwnaed ar: 13 Mehefin 2012.**

**Fe'i gosodwyd ar: 15 Mehefin 2012.**

**Yn dod i rym ar: 1 Awst 2012**

**CLA161 - Rheoliadau Ffioedd Myfirwyr (Cyrsgiau a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) (Diwygio) 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol.**

**Fe'u gwnaed ar: 20 Mehefin 2012.**

**Fe'u gosodwyd ar: 22 Mehefin 2012.**

**Yn dod i rym ar: 1 Medi 2012**

### **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

**CLA158 - Rheoliadau Dynodi Nodweddion (Apelau) (Cymru) 2012**

**Gweithdrefn: Cadarnhaol.**

**Fe'u gwnaed ar: heb ei nodi.**

**Fe'u gosodwyd ar: heb ei nodi.**

**Yn dod i rym ar: yn unol â rheoliad 1(1)**

## **Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

### **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol**

Dim

### **Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol**

Dim

### **Unrhyw fater arall**

## **Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012**

Gyda golwg ar ymateb y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd, penderfynwyd nad oedd angen gwneud cais am amser ychwanegol i graffu ar y Gorchymyn drafft hwn.

### **Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan David Hughes, Bargyfreithiwr o siambrau 30 Park Place, Caerdydd.

### **Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)**

Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn perthynas â Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru). Gyda'r Gweinidog roedd Christopher Humphreys, Cynghorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cymru a Christopher Brereton, Pennaeth Deddfwriaeth ynghylch Iechyd Amgylcheddol y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu nodyn ynghylch unrhyw bwerau wrth gefn i'w wneud yn ofynnol bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cynnal gwefan.

### **Penderfyniad i gyfarfod yn breifat**

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.42(vi), penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod i drafod y dystiolaeth a gyflwynwyd hyd yma ynghylch yr ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru a'r dystiolaeth am Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru).

### **David Melding AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## **2 Gorffennaf 2012**